# y Dinesydd

RHAGFYR 1993/IONAWR 1994 PAPUR BRO DINAS CAERDYDD RHIF 199


NADOLIG LLAWEN IAWN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I'N DARLLENWYR OLL



# PENNAETH TREFNIANT RHAGLENNI

Rydym yn chwilio am rywun profiadol i oruchwylio gwaith y tim sy'n gyfrifol am weinyddiaeth a chyllid rhaglenni S4C.

Bydd disgwyl i'r person llwyddiannus reoli pob agwedd o'r broses cyllidebu rhaglenni a chynorthwyo'r Rheolwr Materion Busnes gydag unrhyw faterion masnachol ychwanegol sy'n gysylltiedig â chynyrchiadau.

Mae angen o leiaf ddwy flynedd o brofiad uniongyrchol o gyllid rhaglenni a materion busnes ym myd teledu.

Cyflog: I'w drafod.

Ceisiadau yn cynnwys manylion llawn am eich gyrfa a'ch profiad, ynghyd ag enw dau ganolwr at:

Ifan Roberts
Adran Personel
S4C
Parc Ty Glas
Llanisien
CAERDYDD
CF4 5DU

S4C

Dyddiad cau: 21 Rhagfyr 1993. Cynhelir cyfweliadau yn gynnar yn Ionawr.

---

y Dinesydd

**BOB MIS MAE DROS 10,000 O BOBOL YNG NGHAERDYDD A THU HWNT YN DARLLEN Y DINESYDD.**

ER MWYN CYRRAEDD Y NIFER MWYAF POSIB O GYMRY CYMRAEG CAERDYDD FFONIWCH CATRIN YN SWYDDFA WERTHIANT Y DINESYDD

**0222 598243**

***Cyfraddau hysbysebion sylw (mono):*** tudalen lawn £350; hanner tudalen £180; chwarter tudalen £100; wythfed tudalen £60; pob colofn cm £7
***Cyfradd hysbysebion cyhoeddi:*** £15

Ffigur nifer y darllenwyr yn seiliedig ar ganlyniadau arolwg y Dinesydd, Mai 1991

---

# Huw Roberts BSc, ACMA

*Cyfrifydd*
*Nadolig Llawen*
*a Blwyddyn Newydd Dda*

Aelod o FIMBRA

*Cyngor ariannol annibynnol ar gyfer treth, pensiynau ac yswiriant personol*

Y Rhodfa, 5 Pine Court, Forest Hills,
Talbot Green, Morgannwg Ganol CF7 8LA
Ffôn Llantrisant (0443) 224182

---



## LAPIWCH EICH ANRHEG NADOLIG YN IAITH Y NEFOEDD ELENI!

Pam ddylech chi lapio eich anrhegion arbennig mewn papur sy'n dwyn cyfarchion Saesneg? Cynigiwn dri gwahanol gynllun deniadol yn y Gymraeg am brisiau rhesymol. Archebwch nawr - cewch eich papur lapio mewn digon o bryd i fwynhau'r Wyl yn Iaith y Nefoedd!

Llenwch y ffurflen isod a danfonwch eich archeb a'ch siec am y pris priodol at Cardiau Cromlech, 203 Cathedral Road, Caerdydd CF1 9PN

ENW..........................................3 darn o bapur am £1.50
CYFEIRIAD................................6 darn o bapur am £3.00
..........................................10 darn o bapur am £5.00 boX
..........................................................neu.......darn am..
..........................................Ychwanegwch Bris P/P 50c
Côd Post...............................................Cyfanswm

---

Hywel Samuel BDS (Cymru)

# DEINTYDD

- TRINIAETH GWASANAETH IECHYD.
- TRINIAETH BREIFAT

mewn awyrgylch hamddenol a chyfeillgar

Rydyn ni'n dal i gofrestru cleifion newydd o dan y gwasanaeth iechyd

28, Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF1 2AB
0222 371393

# YDYCH CHI'N HAEDDU'R DINESYDD?

Wrth fod yng ngofal **Y Dinesydd** ar ran siaradwyr Cymraeg Caerdydd, mae 'na adegau'n codi pan fyddwn ni'n gofyn i'n hunain "beth yw gwerth cadw 'mlaen â'r peth?". Mae'r ymdrech i gyhoeddi'r **Dinesydd** yn mynd yn fwy ac yn fwy o fis i fis. Nid oherwydd prinder deunydd i'w gyhoeddi, ond oherwydd crebachu ar yr incwm sydd ym mhwrs y papur.

Mae'r cwestiwn hwnnw unwaith eto wedi codi ei ben, ac o'm rhan i mae'r dystiolaeth yn awgrymu nad oes gwerth i ni barhau â chyhoeddi'r **Dinesydd**, a chladdu bron i 21 mlynedd o hanes Cymraeg Caerdydd unwaith ac am byth.

Rheswm y syrffed yw eich apathi amlwg chi, ein darllenwyr, tuag at y papur. Ers 1973 rych chi wedi cael eich copi yn rhad ac am ddim o fis i fis a bod yn ddigon bodlon eich byd. Yr hyn nad ydych yn ei sylweddoli yw mai amgylchiadau artiffisial o ewyllys da ar ran dau gwmni masnachol sydd wedi cadw'r **Dinesydd** yn fyw ers bron iawn i bum mlynedd, a bod y dyddiau di-bryder hynny eisoes wedi dod i ben.

Ryn ni wedi sôn dro ar ôl tro bod ein costau cynhyrchu ni yn £1000 – ie, mil o bunnau – bob rhifyn, ac wedi gofyn am eich cymorth chi fel darllenwyr i'n helpu i gwrdd â'n costau. Nid ar chwarae bach mae talu am argraffu 4000 o gopïau o'r **Dinesydd** ddeng waith y flwyddyn, nac ychwaith ei ddylunio na'i olygu.

Yn anffodus, tila iawn fu eich cefnogaeth i'r **Dinesydd**. Er gwaethaf ymgyrch danysgrifio **Dinesydd 2000** a ddechreuwyd ddwy flynedd yn ôl, prin 100 ohonoch sydd wedi trafferthu i gyfrannu £15 y flwyddyn i ni. Er gwaethaf ein Hapêl Nadolig eleni, pan anfonwyd cais personol drwy'r post at fil o Gymry Cymraeg Caerdydd dros y ddeufis diwethaf yn gofyn am gyfraniad o £15 y flwyddyn, prin 20 o atebion a gawsom.

Allan o 18,000 ohonoch siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd, mae'r ffigurau hyn yn gywilyddus, ac yn awgrymu'n gryf i ni nad oes gwerth parhau â phapur bro hynaf Cymru.

Mae dau ateb i'r sefyllfa hon. Y naill yw eich bod chi'n dangos eich cefnogaeth yn gryf ac yn ymarferol i ni dros gyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd, yn llenwi'r ffurflen danysgrifio sydd ar y dudalen hon a'i hanfon atom heddiw. Y llall yw ein bod yn cychwyn codi pris clawr am bob un copi o'r **Dinesydd** o fis Mawrth nesaf ymlaen.

Mae angen gwirioneddol i bawb ymateb i apêl y **Dinesydd**, ac nid disgwyl i rywun arall wneud. Oherwydd heb eich ymateb chi i gyd, does gan y **Dinesydd** ddim dyfodol.

Erbyn y rhifyn nesaf o'r **Dinesydd** ym mis Chwefror mi fydd hi'n glir pa gamau fydd angen i ni eu cymryd wrth benderfynu ar ddyfodol y **Dinesydd**. Mi fyddai'n ddiwrnod trist pe bai'n rhaid i mi argymell i Bwyllgor y **Dinesydd** ein bod yn dod â'r cyhoeddiad unigryw hwn i ben, ac yn fynegiant brawychus o ddifaterwch siaradwyr Cymraeg prifddinas Cymru tuag at lewyrch y Gymraeg yng Nghaerdydd.

**Alun Ceri Jones**
**Cadeirydd**


## NADOLIG PWY...

### NADOLIG YN Y GHETTO

Mae'r Dolig yma eto
A Santa yn ei groto,
Holl blant y byd - gwyn eu byd,
Ond...plant o hyd mewn ghetto.

Beth am blant bach y ghetto?
'Sdim Santa yn eu groto,
A gan' nhw'r ffydd nes cario'r dydd?
Cyfiawnder fydd yn cario!

**Marvin y Melinydd**
**Amgueddfa Werin Sain Ffagan**



### BETHEL, PENARTH

Y mae'n draddodiad bellach fod Cymanfa Garolau dwyieithog ym Methel ar y nos Sul gyntaf yn Rhagfyr. Yr arweinydd gwadd eleni oedd Mr Havard Gregory, ac fe gafwyd noson lwyddiannus iawn. Yr organydd oedd Vernon Llewellyn. Cymerwyd y rhannau arweiniol gan y gweinidog, y Parch Meurwyn Williams, ac er mwyn rhoi anadl i'r arweinydd tua hanner ffordd fe gafwyd eitem gerddorol gan ieuenctid yr eglwys.

Mwynhaodd pawb y coffi a'r 'mince piec' a ddosbarthwyd iddynt yn eu seddau ar ddiwedd yr oedfa - gwaith y tîm arferol o wragedd yr eglwys dan arolygaeth Winifred Llewellyn a Moyra Owen.

Fe fydd y croeso cynnes arferol i bawb garai ymuno yn yr oedfa blygeiniol am hanner awr wedi saith ar fore'r Nadolig.

**Y DINESYDD CHWEFROR 1994**

**Dylid anfon adroddiadau, erthyglau a newyddion at Ysgrifennydd y Pwyllgor Golygyddol, Catrin Lloyd Rowlands, Lligan, 15 Branwen Close, Croes Cwrlwys, Caerdydd CF5 4NE**

## Apêl Nadolig y Dinesydd

***Tanysgrifiwch £15 i Dinesydd 2000***

Llenwch y ffurflen, ei rhoi mewn amlen a'i dychwelyd at Dinesydd 2000, d/o Surrexit Cysylltiadau Torfol, Rhadbost - Freepost, Parc Afon, Bridge Road, Ystum Taf, Caerdydd CF4 1ZZ

Dymunaf gyfrannu i Dinesydd 2000

☐ £15 ☐ swm arall

(nodwch faint) £________

Enw: ..........................................

Cyfeiriad: ..........................................

..........................................

..........................................

Rhif ffôn: ..........................................

Dymunaf dalu â siec ☐ ticiwch yma os dymunwch gael derbynneb am eich siec ☐

archeb banc ☐ (llenwch gyferbyn)

*Archeb Banc*

I Fanc ccc ..........................................

Cangen ..........................................

Byddwch cystal â thalu i Fanc y National Westminster, 10 Heol Hendre, Pencoed, Penybont ar Ogwr, Morgannwg Ganol CF35 5NW (Rhif côd didoli 60-16-48) i gredyd Dinesydd 2000 rhif 56401388, y swm o £______ i ddechrau ar ___/___/___ ac wedyn bob blwyddyn/6 mis (dilëwch fel bo'r angen) hyd nes y derbyniwch rybudd pellach gennyf/ gennym, a debydu fy/ ein cyfrif yn unol â hynny.

Cyfrif i'w ddebydu ..........................................

Rhif y cyfrif ..........................................

Llofnod (ion) ..........................................

Dyddiad ..........................................

## CYMDEITHAS GYMRAEG RHIWBEINA

- Cafwyd noson fythgofiadwy ar Dachwedd 25ain pan aeth y Gymdeithas i Theatr Eglwys y Crwys i wylio'r ddrama *Ni a Nhw* gan Alan Ayckbourn wedi ei chyfieithu gan Gari Nicholas.

  Hoffem longyfarch pawb a fu ynghlwm â'r cynhyrchiad gwych yna. Mae'n rhaid enwi un, sef Bob Roberts, neu Anthony Hopkins ein cymdeithas ni! - roeddet yn wych, Bob. Dwedodd sawl aelod fod yr actio cystal ag unrhyw beth a welir yn y West End. Beth am eich gweld yn y Sherman y flwyddyn nesa'? Trueni na fuasai Cymru gyfan yn cael y fraint o weld y cynhyrchiad - rydych i gyd yn haeddu cerdyn Equity!

- Dymunwn adferiad llwyr i Bethan Dyfri a'i chariad ar ôl damwain car yn Lloegr.

- Llongyfarchiadau mawr i Mrs Nellie Powell, mam Jean Ewart, ar gyrraedd 90 oed ar Ragfyr 14eg.

- Llongyfarchiadau i John Walter Jones ar ei swydd newydd fel Prif Weithredwr Bwrdd yr Iaith.

- Cydymdeimlwn ag Alun Guy a Meinwen Grey o golli'u brawd yng nghyfraith, Dafydd Jones, cyn brifathro Ysgol Rhydfelen.

- Bydd Cymdeithas Hamdden Cymry Caerdydd yn cwrdd yn festri Eglwys Stryd Minny ar y 15fed o Ragfyr i fwynhau eu tê parti Nadolig yng nghwmni'r Parch Geraint Tudur.

- Cyfarfu Cymdeithas 'Bois Y Wenallt' yn Neuadd Sir, Glanfa Iwerydd nos Wener, Rhagfyr 10fed i chwarae ceilis.

- Bydd Mrs Mallt Anderson yn ein diddori ar Ragfyr 16eg. Edrychwn ymlaen am noson hwylus i'n harwain at y Nadolig.

- **NEWID DYDDIAD**
  Bydd ein Cymanfa Ganu yn cael ei chynnal ar Fawrth 6ed nawr gan fod Cymanfa'r Arglwydd Faer ar Chwefror 27ain yn Neuadd Dewi Sant. Beth am i ni gyd fynd i Gymanfa'r Arglwydd Faer er mwyn cael rihyrsal ar gyfer ein Cymanfa ni. Mae croeso i bawb ymuno â ni yn ein Cymanfa yng Nghapel Beulah am 8 o'r gloch ar y 6ed o Fawrth.

## O ARDALOEDD ERAILL

- Llongyfarchiadau i Catrin a Gwydion Lewis, Y Rhath, ar enedigaeth Aled, brawd bach newydd i Ifan a Gerwyn.

- Llongyfarchiadau i Sara Evans o'r Cydbwyllgor Addysg a Dafydd Jenkins o Ysgol Gyfun Cwm Rhymni ar eu priodas. Maent wedi ymgartrefu yn Heol yr Eglwys Gadeiriol.

- Llongyfarchiadau i Fflur Tomos a Glyn Ellis ar eu dyweddïad. Mae Fflur yn fyfyrwraig yn Athrofa Addysg Uwch Caerdydd, a Glyn yn athro yn Nhrelái.

# NEWYDDION

## YR EGLWYS NEWYDD

- Os ydych yn hoffi darllen, neu os ydych am ddysgu mwy am lenyddiaeth Gymraeg, bydd datblygiad newydd yn yr Eglwys Newydd yn Nhymor y Gwanwyn o ddiddordeb i chi. Ddydd Iau, 20 Ionawr 1994, rhwng 2 a 3.30 o'r gloch, cynhelir y cyntaf o naw cyfarfod, dan arweiniad E. Wyn James, lle y bydd cyfle i ddarllen a thrafod rhai o gampweithiau ein llên. Cynhelir y cyfarfodydd yn festri capel Bethel, Heol Pen-llin, a bydd croeso cynnes i Gymry Cymraeg a dysgwyr rhugl fel ei gilydd. Cwrs a drefnir gan Adran Addysg Barhaol Prifysgol Cymru, Caerdydd, yw hwn, a gellir cofrestru amdano yn y cyfarfod cyntaf neu drwy gysylltu â Dr. Gwen Awbery yn yr Adran Addysg Barhaol, 38 Park Place, Caerdydd CF1 3BB (Ffôn 874832). Y tâl am y cwrs yw £13.50.

- Noson yng nghwmni Robin Gwyndaf o'r Amgueddfa Werin fydd cyfarfod cyntaf Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd wedi'r Gwyliau. Fe'i cynhelir nos Wener, 14 Ionawr, am 7.30 o'r gloch. Yna, yr un amser ar 11 Chwefror, bydd Petra Bennett yn rhoi sgwrs i'r Gymdeithas ar y testun 'Taith o Gwmpas Stuttgart'. Cynhelir y ddau gyfarfod yn festri capel Bethel, Heol Pen-llin. Dewch yn llu i gefnogi'ch cymdeithas Gymraeg leol!

- Mewn seremoni yn siambr Cyngor Sir De Morgannwg ar 10 Tachwedd cyflwynwyd gwobrau i enillwyr y cystadlaethau yng Ngŵyl Heddwch De Morgannwg eleni. Bu cyfanswm o dros 2,300 o blant o 48 ysgol yn y sir yn llunio cerddi a phosteri ar gyfer cystadlaethau'r ŵyl eleni. Enillydd y wobr gyntaf am gerdd Gymraeg oedd Emyr Rhun James, gyda Michael Campbell yn ail a Rosemary Hann yn drydydd. Mae'r tri yn ddisgyblion yn Ysgol Gymraeg Melin Gruffudd. Llongyfarchiadau i'r tri ac i'r ysgol. (Gweler eu gwaith ar dudalennau 6 a 7.)

- Soniwyd dro yn ôl yn y golofn hon ei bod yn bosibl trefnu eich gwyliau yn Gymraeg yn Capital Travel, Heol Pen-llin, Yr Eglwys Newydd. Bellach daeth siop Capital Travel i amlygrwydd cenedlaethol gan ei bod yn ymddangos yn un o olygfeydd y gyfres 'Y Ferch Drws Nesa' ar S4C. Un rheswm am hynny, yn ddiau, yw fod Capital Travel yn agos at swyddfeydd cyfarwyddwr y gyfres, Delwyn Sion!

- Cynhaliwyd Sadwrn Siarad a Ffair Lyfrau yn Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd ddydd Sadwrn, 13 Tachwedd. Cafwyd bore llwyddiannus iawn gyda thri dosbarth o ddysgwyr brwd - rhai yn rhieni i ddisgyblion yr ysgol ac eraill yn ddysgwyr o ddosbarthiadau nos y brifddinas.

  Agorwyd siop lyfrau yn neuadd yr ysgol, a daeth nifer dda o rieni a phlant i ddewis eu hanrhegion Nadolig. Cafwyd sesiwn 'stori a chân' i'r plant yn ystod y bore ac roedd cyfle i bawb fwynhau 'paned a sgwrs neu ddiod a chreision yn y ffreutur cyn troi am adre.

  Y bwriad yw cynnal Sadwrn Siarad i ddysgwyr o bob safon unwaith y tymor. Bydd croeso mawr i ddysgwyr *Y Dinesydd* ymuno. Edrychwch am y dyddiad ar ôl y Nadolig.

## CYMDEITHAS GYMRAEG DINAS POWYS A'R CYLCH

- Ar nos Lun gyntaf Tachwedd aeth llond bws o'r aelodau i'r eglwys Norwyaidd yn nociau Caerdydd i glywed gan John Skinner am y datblygiadau arfaethedig ym Mae Caerdydd, a'r effeithiau ar ardal yr hen ddociau ym Mhenarth. Da oedd cael yr holl wybodaeth a'r llenyddiaeth yn Gymraeg. Cadeiriwyd y noson gan Alun Daniel.

- 'Gwyn eu byd y rhai addfwyn'.
  Anodd oedd credu'r newyddion trist ar nos Wener y pumed o Dachwedd fod Dafydd Jones, Murch Crescent wedi marw'n sydyn iawn y p'nawn hwnnw. Roedd capel Minny Street yn llawn am hanner dydd ar ddiwrnod y Cadoediad mewn gwasanaeth i ddiolch am fywyd Dafydd, ac roedd y nifer a ddaeth yno yn berthnasau a chyfeillion, yn dangos y parch mawr a deimlai pawb tuag at Dafydd, ac i estyn cydymdeimlad i Janie, Lowri, Dewi, Dylan a Manon.

  Cyn ymddeol yn gynnar roedd Dafydd yn brifathro Ysgol Gyfun Rhydfelen ac roedd hefyd yn weithgar iawn yn Minny Street lle bu'n Arolygwr yr Ysgol Sul ac yn ddiacon. Roedd yn aelod ffyddlon o gymdeithasau Cymraeg yr ardal - Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys a'r Cylch Cinio Cymraeg yn Y Barri a'r Fro. Roedd yn gwmni difyr bob amser, ac erys coffa da am ŵr bonheddig, addfwyn.

- Mae Ceri Jones, Highwalls Avenue yn dost ers ychydig wythnosau, a dymunwn wellhad buan iddo ef ac Audrey.

**LYNN JONES**

Buddsoddiadau
Yswiriant Bywyd
Pensiynau

Aelod o FIMBRA

30 Highfields, Llandaf
Caerdydd CF5 2QB
Ffôn 0222 562816



**Dalier Sylw yn dathlu ei bumed pen blwydd.** Yma gwelir aelodau'r Bwrdd Rheoli a staff swyddfa'r cwmni. (Rhes gefn, o'r chwith) Huw Eurig; Lisabeth Miles; Mark Drakeford; Ann Beynon (cadeirydd); Eryl Phillips. (Rhes flaen, o'r chwith) Leslie R. Herman Jones (Swyddog Marchnata); Mai Jones (Gweinyddydd); Bethan Jones (Cyfarwyddydd Artistig).

# CYNHYRCHIAD PUMED PEN BLWYDD 'CI' DALIER SYLW YN CODI'I GOES AR GYMRU

Yn dilyn llwyddiant *i*, y cynhyrchiad a gafodd ei gydnabod fel 'hit' Eisteddfod Genedlaethol eleni, mae Dalier Sylw yn dathlu pum mlynedd o gynhyrchu gyda *Calon Ci* gan Gareth Miles, cynhyrchiad fydd yn Theatr Sherman ar ddydd Gwener a Sadwrn, 28 a 29 Ionawr, 1994. Ar daith gyda'r cynhyrchiad bydd gosodwaith/arddangosfa, *Iconau Cymraeg - Hen a Chyfoes* gan Owen Stickler ac Aron Evans.

Mae *Calon Ci*, sy'n gyd-gynhyrchiad â Theatr Clwyd, yn ddychan amharchus o'r gymdeithas Gymreig gyfoes. Wedi ei lleoli yng Nghymru'r dyfodol agos, mae drama Gareth Miles yn cyflwyno byd materol lle nad oes dim yn sanctaidd.

Daeth yr ysbrydoliaeth ar gyfer *Calon Ci* o nofel a drama y dychanwr o Rwsia, Michail Bwlgacoff. Mae *Calon Ci* Bwlgacoff, a ysgrifennwyd yn 1925, yn ddychan ffyrnig ar effaith y Chwyldro Comiwnyddol yn Rwsia. Mae'r nofel yn trafod bywyd a gwaith gwyddonydd enwog. Trwy ddefnyddio'r dechneg o drawsblannu rhai organau hanfodol, mae'r Athro yn anelu at drawsffurfio ei gleifion. Uchafbwynt ei yrfa yw'r arbrawf i greu y 'Dyn Newydd' trwy drawsblannu ymenydd a cheilliau dyn i gorff ci crwydr. Mae'r canlyniad yn un syfrdanol, yn ddigrif iawn, ond y tu ôl i'r digrifwch ceir beirniadaeth ar agweddau sylfaenol o gymdeithas.

Mae'r un peth yn wir am ddrama Gareth Miles, sy'n defnyddio amlinelliad y stori wreiddiol, ac yn ei addasu ar gyfer y Gymru gyfoes, a'r chwilio parhaus am Hunaniaeth Gymraeg. Amcan yr Athro Owain Lawgoch yw creu y Cymro perffaith. Mae'n arbrofi ar Saunders, cyn gi anwes cynhyrchydd teledu, sydd wedi cael ei ddylanwadu gan fywyd cyffyrddus a diwylliannol ei gyn-feistr, a chelain Bleddyn Brothen, canwr roc Cymraeg a mân droseddwr a gafodd ei ladd yn ystod gloddest o ddiota adeg gêm rygbi ryngwladol. Mae'r canlyniad yn un ANHYGOEL!

Cyfarwyddydd Artistig Dalier Sylw, Bethan Jones, sy'n cyfarwyddo *Calon Ci*. O ddyfnder y bag papur, fe'i clywir yn adleisio, 'Mae *Calon Ci* yn gipolwg crafog ar y gymdeithas Gymreig. Does dim yn sanctaidd. Un arwydd o genedl hyderus yw y gallu i archwilio, a chwerthin yn iach ar ben ei hynodweddion. Gwaharddwyd nofel Bwlgacoff. All Cymru wynebu drama Gareth Miles?'

Bydd y gerddoriaeth yn *Calon Ci* yn cynnwys cân wedi ei recordio yn arbennig ar gyfer y cynhyrchiad gan Gorky's Zygotic Mynci. Mae hefyd yn cynnwys cerddoriaeth gan Stuart Burrows; Anrhefn; J.S.Bach; Datblygu; Hogie Llandegai; Geraint Jarman a'r Cynganeddwyr; G.Bizet; Trebor Edwards; Maffia; Margaret Williams; Trwynau Coch; Steve Eaves a'i Driawd; Dafydd Iwan.

## EDRYCH YMLAEN

**Colofn sy'n crwydro ar hyd meysydd llên, crefydd a hanes yng Nghaerdydd a'r cyffiniau**

### CANMLWYDDIANT CAWR

Anghyfrifoldeb ar ein rhan, mewn colofn fel hon, fyddai peidio â nodi ein bod ni eleni yn cofio canmlwyddiant geni un o Gymry mawr yr ugeinfed ganrif, sef Saunders Lewis. Dyma'r gŵr a ddisgrifiwyd gan yr Athro R. Geraint Gruffydd fel 'athrylith o wleidydd, dramodydd, bardd a beirniad llenyddol - gŵr yn wir a newidiodd gwrs hanes Cymru'.

Fe'i ganed ar Benrhyn Cilgwri (Wirral) ar 15 Hydref 1893, a threuliodd gyfnodau helaeth o'i fywyd yng nghyffiniau Lerpwl, Abertawe ac Aberystwyth. Ond bu ganddo gysylltiadau agos â Chaerdydd hefyd.

Rhwng Gorffennaf 1921 a Medi 1922 bu'n llyfrgellydd yn sir Forgannwg - ei swydd gyntaf. Bu'n byw am y rhan fwyaf o'r amser hwnnw yn 10 Hamilton Street, gerllaw Gerddi Sophia, ac yno yr ysgrifennodd ei ddrama Gymraeg gyntaf, *Gwaed yr Uchelwyr*, a dechrau ysgrifennu *Blodeuwedd*.

Dychwelodd i Gaerdydd yn 1952 pan gafodd ei benodi'n ddarlithydd yn Adran y Gymraeg yng Ngholeg y Brifysgol gan ei gyfaill mawr, yr Athro Griffith John Williams. Aeth i fyw i Benarth, ac yno y bu ei gartref hyd ei farw yn 1985. Crwydro gyda'i wraig ar hyd y clogwyni gerllaw eu cartref yw cefndir ei gerdd fach hyfryd, 'Lavernock', a ysgrifennwyd yn 1953; ac ysbrydolwyd sawl cerdd o'i waith gan ei ardd ym Mhenarth.

Yn ôl yr Athro Bobi Jones, Saunders Lewis a'r pregethwr grymus, Martyn Lloyd-Jones, yw'r unig ddau Gymro o'n hoes ni y bydd eu gweithiau yn debyg o gael eu hailgyhoeddi yn eu crynswth ymhen pum can mlynedd. Yn ei farn ef, pan fydd llawer o bwysigion ein Cymru gyfoes wedi'u darostwng i droednodyn yn y llyfrau hanes, bydd y ddau hyn yn aros yn ffigurau o bwys parhaol.

Un peth sy'n drawiadol am y ddau yw cysondeb eu gweledigaeth dros yr hanner can mlynedd a mwy y buont yn ysgrifennu. Ac yn ddiddorol iawn, er y gwahaniaethau diwinyddol amlwg rhyngddynt y naill yn Babydd a'r llall yn Brotestant efengylaidd - yr un yw byrdwn sylfaenol y ddau, sef mai problem ysbrydol yw problem waelodol Cymru ac mai adfywiad ysbrydol, i'w ddeffro o'i materoliaeth, yw'r unig wir ateb i'w phroblemau.

Nid wyf am eiliad am fychanu'r gwahaniaethau rhwng credoau'r ddau. Maent mor fawr nes esgor, mewn cyfnod cynharach, ar y Diwygiad Protestannaidd! Ond ar rai materion pwysig fe fyddent yn gwbl gytûn. Ac wrth inni nesu at y Nadolig a throi ein meddyliau at ddiben dyfodiad Iesu Grist i'n byd, mae'n werth dyfynnu tamaid o lythyr enwog gan Saunders Lewis yn *Y Llenor* yn 1927. Maent yn eiriau y gallai Martyn Lloyd-Jones eu hamenio'n galonnog:


'Arbenigrwydd Cristnogaeth erioed fu rhoi bri neilltuol ar bechod; codi pechod i'r fath ogoniant a phwysigrwydd fel yr oedd yn rhaid i Grist fod yn neb llai na Duw, a hwnnw'n marw fel dyn er mwyn diorseddu pechod.'

**E. Wyn James**

Y mis hwn rydym yn cynnwys gwaith o ysgolion y ddinas ac ardaloedd cyfagos, sef Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd, Ysgol Pencae ac Ysgol Gymraeg Penarth.

# YSGOL GYMRAEG MELIN GRUFFYDD

Ddechrau mis Tachwedd mewn seremoni arbennig cyflwynwyd gwobrau i enillwyr y cystadlaethau yng Ngŵyl Heddwch De Morgannwg. Daeth y tri cyntaf mewn cystadleuaeth ysgrifennu cerdd Gymraeg o Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd. Emyr Rhun James oedd y buddugol, gyda Michael Campbell yn ail a Rosemary Hann yn drydydd. Dyma eu cerddi nhw a gwaith rhai o'r plant eraill o'r un ysgol fu'n cystadlu ar y thema 'Mae Gen I Freuddwyd'. Y beirniad oedd Gareth Miles.



Parchu a pheidio gwastraffu
Peidio rhyfela ond caru,
Ail gylchynnu a rhannu,
Hon yw fy mreuddwyd i.

Peidio amharchu ac anafu
Caru'r byd fel babi,
Cofio am hyn o hyd
Er mwyn achub y byd.

**Emyr Rhun James (8 oed) Cyntaf**

Fe hoffwn i gael heddwch
Drwy'r oriau dydd a'r nos.
Fe hoffwn i weld pobl
Yn cadw'n gwlad yn dlos.

Fe hoffwn i gael helpu
Mewn gwledydd dros y môr
Mae pobl yno'n marw
Am nad oes bwyd yn stôr.

Fe hoffwn i weld diwedd
Ar ddioddef yn y byd
"Fe hoffwn," medde'n innau
Ond breuddwyd yw hon i gyd.

**Michael Campbell (8 oed) Ail**

Heddwch, heddwch, heddwch i'r byd
Mae pobl yn marw mewn eisiau.
Cariad, cariad, cariad i'r byd
Mae'n bryd i bawb glywed ein lleisiau.
Siom, siom, siom i'r byd -
Dyw hyn ddim ond breuddwyd o hyd.

**Rosemary Hann (9 oed) Trydydd**

Falle yn y dyfodol
Os na fydd dyn yn stopio'r llygredd
Bydd y byd yn cael ei ddinistrio.
Ond fy mreuddwyd i
Yw byd heb ymladd
A phawb yn ffrindiau
Dyna fy mreuddwyd.

**Owain Williams (6 oed)**

Fe hoffwn weld diwedd rhyfela
Cariad a heddwch yn flaena
Erchylldra'n diflannu o wyneb y cread
Glendid a harddwch heb fod yn amddifad.

Fe hoffwn weld pawb yn y byd
Yn byw mewn cartrefi clyd
Heb wybod dim am ddioddef
Dim ond cariad di-ddiwedd.

**Carys Osborne (8 oed)**

Rhyfel cas sy'n torri ffrindiau
Salwch brwnt yn brifo,
Llygredd drwg yn diflasu'r byd.
Newyn llwyd sy'n lladd
Does dim llawer o ddyfodol.

Ond mae gen i freuddwyd
Ffrindiau hapus yn helpu
Coedwigoedd iach yn tyfu
Blodau tlws yn gwenu
A lliwiau prydferth dros y lle.

**Angharad Elfyn a**
**Lucy Jennings (11 oed)**

# YSGOL PENCAE

## FY MHWMPEN

Bob blwyddyn rwy'n tyfu pwmpen. Gwnes i ddechrau pan oeddwn i yn bedair oed. Yr un diwethaf tyfes i oedd yr un mwyaf ohonynt i gyd. Mae nhw yn tyfu'n gloi os ydych yn bwydo nhw.

Des i â'r un mwyaf i'r ysgol ac i'r Gwasanaeth Diolchgarwch. Roedd pawb eisiau gwybod os oedd yn un go iawn. Roeddwn i'n hapus.

**Lowri Howells (7 oed)**



Daeth Mrs Mari Wyn o fudiad Oxfam i ann
Rhoddwyd cyfraniad ariannol i waith Oxfam a

# YSGOL GYMRAEG PENARTH

## ENNILL MIL O BUNNOEDD

Ar Fedi 25 eleni fe enillodd ein dosbarth ni, sef Blwyddyn 6 Ysgol Gymraeg Penarth, gystadleuaeth bwysig.

Beth oedd y gystadleuaeth? Cystadleuaeth cyflwyno un o'r caneuon allan o "Old Cardiff Winds". Mae'r llyfr yma yn llawn o ganeuon yn ymwneud â hanes dociau Caerdydd.

Beth oedd y wobr? Mil o bunnoedd i'w gwario ar offer cerddoriaeth yn siop G. M. Music yng Nghaerdydd.

Ble gynhaliwyd y gystadleuaeth? Yn y Gyfnewidfa Lo.

Pwy oedd yn beirniadu? Heather Jones, y gantores enwog.

Roedd y gystadleuaeth yn rhan o benwythnos a drefnwyd i hybu treftadaeth Bae Caerdydd. Roedd yn agored i unrhyw berson o unrhyw oed.

Y gân a ddewisom oedd, "All for a day at the races". Mae'r gân yn sôn am yr hen arfer o fynd i rasys ceffylau Elái mewn Siarabang. Roedd yn ddiwrnod arbennig iawn gyda'r bobl gyffredin a'r boneddigion yn cymysgu â'i gilydd yn hollol naturiol. Un o'r ceffylau oedd yn ennill yn gyson oedd Taradidle, ac mae

# YSGOL PENCAE





erch y plant yn y Gwasanaeth Diolchgarwch. dosbarthwyd ffrwythau i'n cymdogion.

# YSGOL GYMRAEG PENARTH

cytgan y gân yn ail adrodd yr enw yma drosodd a throsodd.

Aethpwyd ati i gyfieithu y geiriau ac yna i ddysgu'r gân. Dim ond wythnos oedd gennym. Buom yn ymarfer bob egwyl ac yng nghlwb yr Urdd nes ein bod yn chwys domen. Roedd gymaint i'w wneud - dysgu'r geiriau - dysgu'r symudiadau - casglu'r gwisgoedd addas ac yn y blaen. Roedd y cyfan yn werth chweil. Gallwch ddychmygu y rhialtwch pan gyhoeddwyd mai Ysgol Gymraeg Penarth oedd yr enillwyr.

Diolch yn fawr iawn i Mrs C Jones, Mrs S Owen, Mrs N Davies a Miss E Scourfield am ein helpu.

## CHWILIO AM GYFLE AM SGWRS YN GYMRAEG?

Dyma dri chyfle bob wythnos:

**Nos Fawrth 7.15 - 9.00 p.m.**
YMCA, Y Rhodfa/The Parade,
Caerdydd: Grŵp sgwrsio anffurfiol.
(Ffôn: Maureen Ireland, YMCA, 489101)

**Nos Iau 9.15 - 11.00 p.m.**
Gwesty Parc y Rhath, City Road:
Sgwrs dros ddiod
(Ffôn: Peter Bradley, 763426)

**Bore Sadwrn**
Festri Capel y Tabernacl, yr Ais/Hayes:
Sgwrs dros goffi.

## DARLUNIAU BYW

Oriau mân y bore: yn gynnar iawn yn y bore (the small hours/early hours of the morning)
E.e. Bydd Sion Corn yn galw yn oriau mân y bore.
*Arlunwaith gan Cen Williams (Darluniau Byw, Gwasg Gomer, 1990)*



Bu plant Blwyddyn 1 Ysgol Y Wern yn dysgu am bobl sy'n ein helpu yn ddiweddar. Daeth nifer o ymwelwyr i'r ysgol ac aeth y plant allan i ymweld â gwahanol fannau diddorol. Dyma lun o'r plant gyda chriw o'r Gwasanaeth Ambiwlans a fu'n ymweld â'r ysgol. ▼




# DYSGU CYMRAEG

dan ofal Mair ac Alun Treharne

## CHWARAE PLANT

Mae yna sawl math o Nadolig:
- Nadolig Mair a Joseff, a'r baban Iesu mewn preseb, y bugeiliaid, y doethion a'r angylion - y gwir Nadolig.
- Nadolig y partïon, y ciniawa, y bwyta a'r yfed.
- Nadolig Little Tikes, Geosafari, Baby All-gone a Duplo.

Mae pawb yn adnabod y ddau Nadolig cyntaf ond sawl un ohonoch chi sy'n gyfarwydd â'r enwau lliwgar yn y trydydd math o Nadolig? Y sawl sydd hefyd yn adnabod Tomy, Fisher-Price, Sindy, Barbie a'r Sylvanian family - rhieni, perthnasau neu gyfeillion plant. Os ydych chi wedi prynu anrhegion i blant bach y Nadolig hwn mae'n siŵr y byddwch chi wedi treulio sawl awr yn chwilio trwy gatalogau siopau teganau cyn mynd allan i brynu. Gallwch arbed eich amser, eich arian a'ch amynedd trwy astudio catalogau teganau gartref - daeth sawl un trwy'r drws eleni yn ystod mis Tachwedd. Wedi'r cyfan, nid chwarae plant yw mentro drwy ddrysau Toys'R Us, yr archfarchnad deganau, yn ystod mis Rhagfyr!

Yn ôl un siop deganau leol mae'r teganau mwyaf poblogaidd eleni yn cynnwys:
Baby All-gone - dol sy'n 'bwyta' bwyd o lwy (mae'r 'bwyd' yn diflannu i fraich y ddol mewn gwirionedd!)
Car 'Cosy Coupe' Little Tikes - cerbyd bach plastig cryf.
Geosafari - gêm addysgol i blant ychydig yn hŷn.
Ceffyl siglo traddodiadol.

...heb sôn am y llu o gêmau cyfrifiadur a fideos sy'n apelio at bobl ifanc.

Oes, mae yna sawl math o Nadolig! I'r sawl sy'n paratoi i dreulio'r ŵyl yng nghwmni plant bach mae'n bwysig gwneud yn siŵr bod Sion Corn yn gwybod pa deganau i'w gadael ar yr aelwyd. Nadolig Llawen!

## SAWL FFORDD O DDEFNYDDIO 'SAWL'

Mae sawl math o Nadolig.
*There are several kinds of Christmas.*

Sawl un ohonoch chi ...?
*How many of you ...?*

Y sawl sydd ...
*The person (he/she)/persons (those) who ..*

Daeth sawl un trwy'r drws eleni.
*Several came through the door this year. -*

Dwi wedi ei weld e yma sawl gwaith o'r blaen.
*I've seen him here several times before*

# NI A NHW

ADOLYGIAD



Yn ystod wythnos olaf mis Tachwedd cafwyd pedwar perfformiad gan Gymdeithas Ddrama'r Crwys o **Ni a Nhw**, trosiad Gari Nicholas o gomedi Alan Aychbourn, **How the Other Half Loves**. Am y tro cyntaf roedd y Gymdeithas yn chwarae gartref fel petai, hynny yw yn ei theatr ei hunan yng Nghapel y Crwys. Mae'r festri wedi ei haddasu yn ystod yr haf i fod yn theatr fechan gyda goleuadau a sain, a'r cyfan yn broffesiynol iawn. Mae lle i eistedd tua pedwar ugain o gynulleidfa yn y theatr, a dylid llongyfarch y gymdeithas am y fenter yma.

Nawr beth am y ddrama, a phwy ydi 'Ni' a phwy ydi 'Nhw'. Ar y naill law ceir Frank Foster (Beni Harries) a'i wraig Fiona (Janet Parry Jones), cwpwl canol oed yn mwynhau eu moethusrwydd cyfoes ac yn rhygnu ymlaen yn fodlon a di-gynnwrf, Ar y llaw arall mae un o gyd-weithwyr Frank, sef Bob Phillips (Bob Roberts) a'i wraig Teresa (Non Davies), yn brwydro i gadw dau ben llinyn ynghyd yn wyneb priodas digon bregus. Cydweithiwr arall, William Prys (Aled Evans) sy'n creu yr hafoc. Chwarae teg i William - fu erioed greadur ffeindiach a pharod ei gymwynas, ond mae ganddo un broblem fawr, sef diffyg hyder ei wraig Mary (Betsan Evans).

Dyna yn fras gefndir y ddrama, ond nid dyna'r stori yn llawn! Roedd yr holl chwarae yn digwydd yn ystafelloedd byw y Fosters a'r Phillips', a hynny ar yr un pryd! Ydi hyn yn swnio'n gymhleth i chi? Wel, beth bynnag am hynny, fe lwyddodd y cwmni i fynd â ni i mewn i'r ddwy ystafell yn gelfydd iawn, a rhaid llongyfarch y rhai a fu yn gyfrifol am y set. Proffesiynol iawn. Rydym bellach wedi dod i ddisgwyl cynhyrchiadau da oddi wrth y cwmni yma, ac ni chawsom ein siomi y tro yma chwaith. Roedd y theatr yn fôr o chwerthin o'r dechrau i'r diwedd gyda'r symudiadau ar amseru yn wirioneddol wych.

Wrth longyfarch y cwmni a'u cynhyrchydd George Owen ar eu llwyddiant, hoffwn ddiolch yn fawr iddynt am eu menter yn creu y theatr fechan yma - lleoliad arall i ni Gymry Caerdydd ddod at ein gilydd.

Os fethoch chi weld y cynhyrchiad yma, deallwn y bydd cyfle arall i chi ei weld ddechrau mis Chwefror cyn i'r cwmni fynd ar daith i ogledd Cymru.

**Ar rent** Ystafell i'w rhentu mewn fflat yn St Fagans Rise. Diddordeb? Ffoniwch 0222 569411 ar ôl 5.30pm.

**Yn Eisiau** Rhywun i deipio'n achlysurol. Clywdeipio Cymraeg gan mwyaf, ar gyfrifiadur. Sillafu cywir yn angenrheidiol. Ffôn 0222 810600.

# *Holi'r Sêr*

yng nghwmni
EIRY PALFREY

**ENW:**
DAFYDD HYWEL

**GWAITH:**
ACTOR

**DYDDIAD GENI:**
RHAGFYR 4YDD 1945 (SAGITTARIUS)

**AMSER GENI:**
tua 11.30 y bore

**MAN GENI:**
Glanaman

**DYDDIAD GENI EICH CYMAR:**
Mehefin 14eg (Gemini)

**HOFF LIW:**
Gwyrdd

**HOFF FLODYN:**
Rhosyn

**SUT BYDDWCH CHI'N TREULIO'CH ORIAU HAMDDEN?**
Yng nghwmni Llyr y mab, yn gwylio chwaraeon a mynd i'r gampfa

**OES GYDA CHI HOBI? BETH YW E?**
Yfed

**BLE A PHRYD RYCH CHI HAPUSAF?**
Pan fydda i'n gweithio

**PA GAR SYDD GYDA CHI, A PHA LIW YW E?**
Hyundai gwyrdd

**PA GAR HOFFECH CHI EI GAEL?**
Jaguar hen ffasiwn o'r 50au

**BETH YW EICH HOFF FWYD?**
Cinio dydd Sul a curry

**BLE RYCH CHI'N HOFFI MYND AM WYLIAU, A PHAM?**
Unrhyw le cynnes a thawel. Dwi' ddim yn hoffi lot o bobl o'm cwmpas

**PWY YW EICH HOFF BERFFORMIWR?**
Rod Steiger, Sean Connery a Jerry Lee Lewis

**PWY YW EICH HOFF AWDUR?**
Dwy' ddim yn darllen rhyw lawer - dim ond sgriptiau

**BETH/NEU BWY SY'N MYND AR EICH NERFAU?**
Maggie Thatcher a Chymry sy'n meddwl fod y bobl dros Glawdd Offa yn well na ni


**BETH YW EICH CRYFDER MWYAF?**
Ymroddiad llwyr i'm gwaith, a gonestrwydd yn fy ngwaith

**BETH YW EICH HOFF ANIFAIL?**
Ci - bocser

**PE CAWSECH CHI'R DEWIS, YMHA WLAD HOFFECH CHI FYW?**
Sir Benfro

**BETH SY'N GWNEUD I CHI CHWERTHIN?**
Pws, a Buster Keaton

**PWY/BETH YW EICH HOFF GERDDOR/CERDDORIAETH?:**
Jerry Lee Lewis




Dafydd Hywel yn 'We are Seven'. *Llun HTV*

## BARN YR ASTROLEGYDD

Ganwyd Dafydd Hywel dan arwydd Sagittarius (Tachwedd 23ain-Rhagfyr 22ain). Mae rhain fel arfer yn bobol cymdeithasol, brwdfrydig gydag egwyddorion uchel. Pobol onest, hwyliog, ffwrdd-a-hi sy'n aml yn aflonydd, yn ddiofal ac yn dueddol o fynd dros ben llestri. Mae eu goddefgarwch (er fod Dafydd yn mynnu nad yw'n oddefgar) yn golygu eu bod yn dda am weithio gyda phobol eraill, a'u derbyn fel maen nhw. Maen nhw'n bobol aliblyg, ac fe all eu gonestrwydd a'u diffyg amynedd frifo pobol mwy sensitif heb yn wybod iddynt. Maen nhw'n hoff o chwaraeon, bod allan a theithio. Mae'n gas ganddyn nhw fod yn gaeth. Maen nhw'n llawn ynni - ac yn rhy egnïol i rai pobol. Mae tuedd ynddynt i anwybyddu manylion bywyd, a dim ond gweld y darlun llawn. Dyma'r gwir optimist sy'n gweld yr ochr orau o bob sefyllfa. Mae tegwch a chwarae teg (Whare Teg!) yn bwysig iawn iddynt. Mae ganddynt gywreinrwydd anhygoel, a thymer sydyn. Mi fyddan nhw'n parchu barn unrhyw un sy'n meiddio dadlau â nhw. Ond mae ynddynt duedd i or-wneud (yfed?) a gor-ddweud. A weithiau mi fyddant braidd yn brin o sensitifrwydd tuag at deimladau pobol eraill.

Pan anwyd Dafydd roedd yr arwydd Aquarius yn codi, dyma felly yr wyneb mae'n ei ddangos i'r byd. Mae yma hefyd y gonestrwydd anhygoel yma, ac yma fe welwn ni'r diffyg goddef-garwch. Fydd Aquarius byth yn dioddef ffyliaid. Gwyrdd hefyd yw lliw'r arwydd hwn, a hoff liw Dafydd. Mae elfen anghonfensiynol iawn i'r arwydd hwn sydd wedi ei amlygu mewn gŵr sydd wedi sefyll dros ei hawliau a'r hyn mae'n ei gredu ynddo ers blynyddoedd. Does dim ofn codi gwrychyn neb arno, a phwy ond yr anghonfensiynol fyddai'n chwennych hen Jag o'r 50au

# Y CROESAIR - AP LEWSYN RHIF 135




### AR DRAWS

7. Mae ganddo feddiannau (4)
8. Diau dyma us a geir o'r ysgogiadau (10)
10. Natur y defnydd sydd yn newid ei wawr yn ôl yr ongl yr edrychir arno (8)
11. Dawnus iawn, fel y gwelodd cenhedlaeth y ganrif ddiwethaf yng ngwaith Mynyddog a llu o gerddorion tebyg (6)
12. Y mae yn dewis allan (6)
13. Ma' lle i lun roi braslun o'r sefyllfa (8)
15. Eich gwala o syndod! (5,1,7)
18. Gwawchian y gân i'ch sêr a thipyn o dremolo (8)
20. "Damwain a hap
Yw fy mod yn ei —— yn byw"
(T.H.P.W) (6)
22. Ei rodiad yn dangos mor ddifater y gallai fod (6)
24. Beth yw'r pwrpas? (1,2,5)
25. Nodwedd arbennig cymhleth y taeog (10)
26. Angen newid y llafariaid wrth lefaru (4)

### I LAWR

1. Pan ddaw Dei i Gwdig y gwelir ei fod yn dwyn gwedd newydd, gwell (10)
2. Ymbincio fel y gwnaeth Jesebel yn Ail Lyfr y Brenhinoedd, 1X (6)
3. Y wlad fach sy'n ennill tir - yn llythrennol (8)
4. Fe all gole da ddigwydd weithiau (6)
5. Un sy'n medru deall yr arwyddion? (8)
6. Maes sydd a dim y tuhwnt iddo yn Sir Gaerfyrddin (4)
9. Gall mater Dan, am wn i, fod wedi ei ddatrys yn reit gyflym (4,9)
14. Yr oedd yn lolian (10)
16. Canfod a wnest y gellid cywiro'r steil wag (8)
17. Dyna sut mae pethau! (5,3)
19. Ffrwd fechan (6)
21. Cyfansoddi llith byr am bysgodyn smotiog (6)
23. Tra (4)

### DATRYSIAD 134



### CYSTADLEUAETH RHIF 134

Daeth deg ymgais i law; gwall bach mewn dau ohonynt a'r gweddill yn gwbl gywir. Yr enw a dynnwyd oedd eiddo Huana Simpson, Is-y-Coed Fach, Llansanwyr, ger Y Bontfaen, ac mae'r tocyn llyfr eisoes ar ei ffordd iddi. Y saith arall hollol gywir oedd Margaret Jones, Cyncoed; Mair Tysul Jones, Yr Eglwys Newydd; Rhodri Jones, Penarth; E. Haydn Jones, Rhiwbeina; Sylvia Evans, Y Maendy; Heledd Hall, Treganna a James Wiegold, Rhiwbeina.

### CYSTADLEUAETH RHIF 135

Tocyn Llyfr am £5 eto. Dylai pob ymgais gyrraedd Ap Lewsyn, 13 Rannoch Drive, Cyncoed, Caerdydd erbyn diwrnod olaf Rhagfyr, os gwelwch yn dda.

## CYFROL NEWYDD

# SAITH PECHOD MARWOL

*gan Mihangel Morgan,*
*Gwasg Y Lolfa,*
*Clawr llipa £5.95*

Fel awdur **Dirgel Ddyn** mae Mihangel Morgan yn fwyaf cyfarwydd i ni, sef cyfrol fuddugol y Fedal Ryddiaith yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni.

Mae'n debyg mai'r hyn sy'n taro dyn gyntaf am waith Mihangel Morgan yw ei arddull. Peth anarferol erbyn hyn yw darllen arddull 'lenyddol' mewn cyfrol nad yw wedi ei bwriadu i fod yn waith ysgolheigaidd: mae hi lawer yn rhy hawdd erbyn hyn i fynegi popeth mewn iaith 'rydy dydi', ac o'r herwydd golli unrhyw fath o gynildeb iaith.

Sgwn i ai diben yr arddull yw ychwanegu at natur 'ryfedd' y saith stori fer yn y gyfrol hon - y saith pechod marwol? Yn bersonol, roeddwn i'n methu derbyn bod y clo yn rhai o'r straeon yn berthnasol o gwbl i weddill y stori. Er enghraifft, yn 'Y Chwilen' mae dod ar draws cardotyn ag wyneb rhyfedd yn gadael argraff ddofn ar feddwl y prif gymeriad. Mae ei waith yn dechrau dioddef, mae ei gariad yn rhoi'r gorau iddo, ac yn y blaen. Ac yn sydyn reit, heb unrhyw rybudd, rydyn ni'n clywed y merched yn ei swyddfa'n sôn am orfod mynd â'r gath at y milfeddyg am ei bod yn methu hedfan. Mae un arall am fwydo ei babi i bry cop, sy'n hoffi bwyta babanod ond weithiau yn gadael y pen ar ôl! Wn i ddim, chwaith, a yw un ddalen ar bymtheg o ddisgrifiad manwl o garwriaeth dau ddyn, a'r naill yn lladd y llall o genfigen, yn destun stori fer.

Fe gymerodd ychydig dudalennau i ddod yn gyfarwydd â'r dull o fynegi deialog. Arferiad o'r Cyfandir, mae'n debyg, yw defnyddio - yn lle " ar ddechrau brawddeg sy'n cael ei llefaru. Does dim i ddangos diwedd y darn llefaru, ychwaith, dim ond dechrau paragraff newydd.

Mae gallu disgrifiadol yr awdur yn cydio, fodd bynnag. Mae hanes y dyn barus yn "Pe Bai'r Wyddfa i Gyd yn Gaws" yn realistig iawn. Ond mae tro rhyfedd yng nghwt y stori hon hefyd. Mae'n bwyta ei fam yn y diwedd!

Beth bynnag yw eich chwaeth chi mewn storïau byrion, mae'r gyfrol hon yn sicr yn wahanol i'r ddarpariaeth arferol yn y Gymraeg, a chewch chi ddim un arall debyg iddi yn eich siop lyfrau y Nadolig hwn.

**Mary Jones**

# Y CAMPAU

dan ofal Thomas Davies

## TACHWEDD TYWYLL

"Mis caddug, barrug a bedd" meddai William Griffiths ac ni chredaf i'r un Tachwedd fod yn dywyllach - colli gartre'n erbyn Canada ar y Maes Cenedlaethol ar y degfed, a chyda'r bêl arall yn erbyn Rwmania yr wythnos wedyn.

Ni fu cynnydd felly yn ein rybgi wedi'r cyfan, ac ni fydd Cymru'n chwarae yn Atlanta'r flwyddyn nesaf yng Nghwpan Byd y Bêl Droed.

Wele sylwadau *Ian Gwyn Hughes* am y bêl gron.

Ar ôl deng munud yn unig roedd hi'n weddol amlwg fod yn rhaid i Gymru chwarae'n arbennig os oeddynt am guro Romania. Roedd Dimurrescu a Hagi wedi dangos sawl tro eu bod yn chwaraewyr mwy creadigol, mwy cyfforddus nag un-ar-ddeg Cymru. Pasiodd Romania'r bêl 460 o weithiau yn yr hanner cyntaf, y Cymry ychydig dros 200. Ond mae'r ystadegau'n cael eu gwrthdroi yn yr ail hanner pan sgoriodd Dean Saunders a methodd Paul Bodin o'r smotyn.

Roedd y siom yn aruthrol ar y diwedd, a pharhaodd felly am wythnos a mwy. Ac eto, er na fydd taith i'r Unol Daleithiau, mae pethau wedi newid. Bum mlynedd yn ôl wyth mil a wyliodd Gymru yn erbyn y Ffindir yn Abertawe. Bellach mae'r tîm cenedlaethol yn gyson yn denu torf o ddeng mil ar hungain a mwy. Mae yna gynlluniau pendant gogyfer â'r dyfodol, yn enwedig gyda'r ieuenctid.

Daw'r bygythiad mwyaf o Affrica ac Asia sydd am weld un tîm yn cynrychioli Prydain, ac felly yn rhoi mwy o nerth a chyfle i'r gwledydd yno gystadlu yn rowndiau terfynol Cwpan y Byd. Gyda chymaint yn galw am hawliau gwleidyddol a dynol, pa hawl sydd ganddyn nhw, deudwch, i ddweud na chawn ni ar y maes pêl droed fod yn Gymry?

---

## RYGBI'R CYNGHRAIR

Bu llawer o sôn am gynghrair i glybiau gorau'r ddwy wlad, Cymru a Lloegr. Bûm i'n holi *Jason Hewlett*, canolwr ifanc Caerdydd, am ei farn am gyngheiriau, a chefais wybod ar unwaith y byddai ef a'r rhan fwyaf o'i gydchwaraewyr yn croesawu cynghrair i glybiau'r ddwy ochr i'r ffin. Ni chant fawr o bleser o ennill yng Nghynghrair Heineken o hanner can pwynt a mwy, ac o chwarae un ornest yn erbyn y saith clwb arall yng nghynghrair Cymru a Lloegr bob tymor (gartre ac oddi cartref bob yn ail dymor), fe fyddai cyfle i chwarae gornestau di-bwyntiau heb y pwysedd sy arnynt nawr o orfod ennill, doed a ddel. Fe gred Jason fod gormod o gicio oherwydd y pwysedd hwn.

DAWNSIO

# CWMNI DAWNS WERIN SWYDDOGOL PRIFDDINAS CYMRU

**Yn ddiweddar trosglwyddwyd tystysgrif gan Ddirprwy Arglwydd Faer Dinas Caerdydd i Gwmni Canolfan Caerdydd a oedd yn nodi mai'r cwmni hwn yw Cwmni Dawns Werin swyddogol y brifddinas. Yma, mae'r ostler, RHODRI JONES, yn edrych yn ôl ar ddathlu pen blwydd y Cwmni yn bump ar hugain oed.**

Erbyn hyn mae'n hysbys i bawb fod Cwmni Dawns Werin Canolfan Caerdydd wedi cyrraedd oedran parchusrwydd. Wel, mae chwarter canrif fel arfer yn haeddu ei ddyledus barch, weithiau. Do, mi gyrhaeddodd y pen blwydd arian a hynny lawer ynghynt nag y meddyliodd rhai. A dweud y gwir yn onest roedd nifer yn credu na fyddai'r Cwmni yn para blwyddyn. Ond... Na, dwi ddim yn mo'yn defnyddio geiriau Dafydd Iwan, ond fel pob ystrydeb mae elfen o wirionedd ynddo. Nôl yng nghyfnod euraidd y chwedegau hwyr a'r saithdegau cynnar roedd yna ddawnswyr gwerin yng Nghaerdydd yn ennill bri yn yr eisteddfodau, yr Urdd a'r Genedlaethol. Yn y dyddiau hir felyn tesog hynny roedd cythraul cystadlu heb godi ym myd y ddawns a neb wedi troedio ar hyd llwybr y corau mawr. O na fyddai'n haf o hyd.

Beth bynnag am hynny, roedd yn rhaid cael parti i ddathlu'r achlysur, ac felly y bu. Afiechyd mwya'r Cymry yn codi ei ben a phwyllgor yn cael ei greu. Diolch amdanynt bob un oherwydd trefnwyd penwythnos o ddathlu bythgofiadwy yng Ngwesty'r Marriott ar ddiwedd mis Hydref. Pam penwythnos? Rhaid dathlu mewn steil, a dyna fu. Estynnwyd gwahoddiad i bawb a fu'n gefnogol i'n hymdrechion dros y 'pethe' ers chwarter canrif i ymuno gyda ni ar y nos Wener. Ambell un yn gofyn "Pam fi?" A'r ateb? Mae'r Cwmni'n cofio'i ffrindie. Nôl ym 1968 roedd hwn a hwn yn aelod o bwyllgor rheoli'r ganolfan neu hon a hon wedi'n rhoi ni ar drywydd taith i'r Ukraine neu rhoi hysbyseb yn rhaglen Gŵyl Ifan. Mrs Alys Williams, Llywydd Cymdeithas Ddawns Werin Cymru, oedd yr unig feirniad i gael gwahoddiad.

Roedd yr achlysur yn dipyn o 'chain gang' gyda Dirprwy Arglwydd Faer y Ddinas ac Arglwydd Faer y Fro yno hefyd ynghyd ag ambell i berson a fu yn y swyddi hyn dros y blynyddoedd. Ar ddiwedd ein rhaglen trosglwyddwyd tystysgrif gan y Dirprwy Arglwydd Faer i'r Cwmni yn nodi taw ni yw Cwmni Dawns Werin swyddogol prifddinas Cymru.

Ar y nos Sadwrn cafwyd parti i ni fel Cwmni a'n ffrindiau ym myd y ddawns. Oedd, mi roedd y penwythnos yn arbennig a rhaid dweud diolch fan hyn am i Ddawnswyr Nantgarw fynd i Lydaw yn ein lle fel na fu raid i ni gymhlethu trefniadau. Fe gollon nhw noson fawr.

Mae'r dathliadau yn dal i fynd ymlaen a'r Cwmni yn dal i ddawnsio. Mae hyn yn dod â fi at y ffaith fod y Fari Lwyd eleni eto yn gadael ei stabal i grwydro'r Ddinas, y Fro a'r Blaenau. Felly, os oes unrhyw un am iddi alw gan ddod â'i chyfarchion tymhorol i barti neu ddathliad rhowch wybod i mi. Y cyfeiriad yw Dyfodwg, 8, St Cyres Road, Penarth CF64 2WQ, neu rhowch alwad ar 0222 704965.

---

# SAIN, CERDD A CHÂN

Ym mis Chwefror 1974 cynhaliwyd cyngerdd olaf Côr Plant Beti Wyn dan y teitl uchod. Ar Chwefror 26ain 1994, fel adlais o hyn, bydd criw arall o bobl ifainc yn rhoi noson o adloniant yn Neuadd Yr Ysgol Feddygol, ond y tro hwn côr dan yr enw *Adlais* o Ynys Môn fydd yn perfformio gyda Heather Jones a'r Dr Medwin Hughes ac eraill yn cynorthwyo.

Bydd yr elw yn mynd i gronfa Tenovus sydd yn dathlu hanner can mlynedd o weithredu fel elusen i geisio dileu yr afiechyd creulon cancer a gymerodd oddi arnom gymaint o'n hanwyliaid. Nodwch y dyddiad a dewch yn llu.

---

Llongyfarchiadau i Sioned a Robert Thomas o'r Tyllgoed ar enedigaeth Aled brawd i Mared a Geraint, ac ŵyr i Mervyn a Virginia Thomas, Llandaf a Gethin a Morfydd Jones, Abergwaun.

Daeth anrheg Nadolig cynnar i Carys (Evans gynt) a Nigel Annett, sef bachgen bach annwyl o'r enw Elis Gwyn, brawd i Rhys Ioan. Mae Elis Gwyn yn ŵyr i Gwyn a Margaret Evans, Lady Mary Road, ac yn nai i Delyth, Angharad a Meurig Evans.

# GWYLIAU NADOLIG

## NEWIDIADAU SBWRIEL/AILGYLCHU

## YNG NGHAERDYDD

GWASANAETHAU'R AMGYLCHEDD



**Gofynnir i chi gymeryd sylw arbennig o'r newidiadau sydd yn nhrefn y dyddiadau casglu sbwriel (a'r sachau ailgylchu os yn briodol) dros yr ŵyl.**

### TREFNIADAU ARFEROL

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dydd Gwener | **24ain o Ragfyr** | i'w gasglu | fel arfer |
| Dydd Llun | **27ain o Ragfyr** | i'w gasglu | fel arfer |
| Dydd Mawrth | **28 ain o Ragfyr** | i'w gasglu | fel arfer |
| Dydd Mercher | **29fed o Ragfyr** | i'w gasglu | fel arfer |
| Dydd Iau | **30fed o Ragfyr** | i'w gasglu | fel arfer |
| Dydd Gwener | **31ain o Ragfyr** | i'w gasglu | fel arfer |

### NEWIDIADAU CASGLU

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dydd Llun | **3ydd o Ionawr** | i'w gasglu ar | Ddydd Mercher | ***5ed o Ionawr*** |
| Dydd Mawrth | **4ydd o Ionawr** | i'w gasglu ar | Ddydd Iau | ***6ed o Ionawr*** |
| Dydd Mercher | **5ed o Ionawr** | i'w gasglu ar | Dydd Gwener | ***7fed o Ionawr*** |
| Dydd Iau | **6ed o Ionawr** | i'w gasglu ar | Ddydd Sadwrn | ***8fed o Ionawr*** |
| Dydd Gwener | **7fed o Ionawr** | i'w gasglu ar | Ddydd Sul | ***9fed o Ionawr*** |

**Gofynnir i chwi roi eich sbwriel tu allan i'r tŷ naill ai'r noson cyn eich dyddiad casglu newydd neu cyn 7.00am fore'r casgliad ei hun.**

**Gofynnir i fasnachwyr sydd â chytundeb gyda'r Cyngor gadw'r sbwriel o fewn yr adeiliadau hyd y casgliad nesaf.**

**Dylai'r rhai hynny sydd yn derbyn gwasanaeth clinigol nodi bydd y trefniadau uchod yn berthnasol.**

**Bydd Tomen Ysbwriel y Cyngor yn Ferry Road a'r holl Storfeydd Glanhau ar gau dros Dydd Nadolig 25fed, Dydd Sul 26ain o Ragfyr, Dydd Calan y laf o Ionawr a Dydd Sul 2il o Ionawr 1994.**

**NB: Ailgychwch eich coeden Nadolig drwy ddefnyddio'r gwasanaeth sydd yn y Storfeydd Glanhau rhwng 5ed a 12fed o Ionawr 1994.**

***FFONIWCH ☎ CAERDYDD 822110 GYDAG UNRHYW YMHOLIADAU GLANHAU.***

# CYLCH LLYFRYDDOL CAERDYDD

Mwynhad pur i aelodau'r Cylch Llyfryddol ar 19 Tachwedd oedd cael y fraint o wrando ar yr Athro R. Geraint Gruffydd yn darlithio ar Saunders Lewis. Roedd gan y siaradwr ddigon o ddeunydd - gwybodaeth o gyfeiligarwch personol dros gyfnod maith yn ogystal ag o astudio'i waith - i fedru siarad am oriau. Ond dewisodd Dr. Gruffydd y tro hwn roi'r sylw mwyaf i gynnyrch S.L. yn ystod ei flynyddoedd yn y diffeithwch, h.y. rhwng 1937 pan ryddhawyd ef o garchar a'i ddiswyddo o'i waith yn Abertawe hyd 1952 pan benodwyd ef yn ddarlithydd yn Adran Gymraeg Coleg y Brifysgol, Caerdydd.

Yn ystod y cyfnod blin hwn, pryd y bu'n byw yn Llanfarian, Aberystwyth, cyflawnodd Saunders Lewis gamp anferth trwy ysgrifennu colofn yn gyson i Faner ac Amserau Cymru (1939-1951) yn trafod pynciau gwleidyddol gan mwyaf; bu'n dysgu mewn ysgolion yn y cylch, yn ffermio tipyn, a gwnaeth rywfaint o arolygu ysgolion cyn symud i Gaerdydd. Buasai ganddo ddiddordeb erioed yn y ddrama, ond rhoes y cyfnod hwn gychwyn i restr hir o ddramâu llwyddiannus ganddo - Buchedd Garmon (1937), Amlyn ac Amig (1940), Blodeuwedd (1948), Eisteddfod Bodran (1952), Gan Bwyll (1956), Siwan (1956), ac yn y blaen - dwy ar bymtheg i gyd, yn ogystal â rhai sydd heb eu cyhoeddi eto.

Dwy nofel yn unig a gyfansoddodd S.L. - Monica (1930) a Merch Gwern Hywel (1964) - dim yn ystod blynyddoedd y nychdod, ond daeth i'r amlwg fel bardd mawr yn ystod y cyfnod hwn, ac mae rhai o'i gerddi yn bendant ymhlith cerddi mwyaf y ganrif hon. Yn naturiol, soniodd Dr. Gruffydd am ei waith mawr mewn meysydd eraill hefyd; fel gwleidydd ac fel beirniad llenyddol, ac am y cynnyrch a symbylwyd gan ei astudiaethau manwl a'i wybodaeth ddofn o lenyddiaeth Ladin, Ffrangeg, Eidaleg a Saesneg.

Llywydd y noson oedd Huw Ethall, a diolchodd yr Athro Ceri Lewis i'w gyfaill am ddarlith hynod o ddiddorol a chynhwysfawr wedi'i britho gan gyfeiriadau personol. Teimlai'r gynulleidfa niferus fod Dr. Geraint Gruffydd wedi agor y drws o'r newydd, fel petai, i gynifer ohonom ni i fywyd a gwaith un sy'n siŵr o haeddu cael ei gofio fel prif ffigwr llenyddol Cymraeg yr ugeinfed ganrif.

**D Gwyn Jones**

BYDD Y CI DEFAID CYMREIG BYTH YR UN FATH ETO!

**DALIER SYLW**

YN CYFLWYNO




COMEDI DDYCHAN GAN GARETH MILES

CYD-GYNHYRCHIAD A THEATR CLWYD

**AR DAITH**

12-29 IONAWR 1994

*ARCHEBWCH NAWR!*

Theatr Sherman
Gwener ~ Sadwrn,
20 ~ 29 Ionawr 1994
Ffôn 0222 230451

# Pam talu £9.95?

**GAIR I GALL**

Geiriadur Acen–ar gyfer dysgwyr ond yn ddefnyddiol i bawb.


Geiriadur sylfaenol, wedi ei gynllunio yn arbennig ar gyfer dysgwyr, yn hawdd i'w ddefnyddio mewn clawr meddal.

**Dim ond £7.45**

i siopwyr personol yn unig, tra bod y stoc yn parhau.

**Arbedwch £2.50** wrth ymweld ag ORIEL Heol Tŷ'r Brodyr, Caerdydd CF1 4AA I lawr y ffordd o'r Theatr Newydd.

Yn agored chwech diwrnod o'r wythnos 9.00 - 5.30
- *Agoriad hwyr y Nadolig:*
- *Dydd Iau 9 Rhagfyr*
- *Dydd Iau 16 Rhagfyr*
- *Dydd Iau 23 Rhagfyr*




HWYL A FFLAG

**HWYL A FFLAG**

yn cyflwyno

# UN FUNUD FACH

gan SIAN SUMMERS

*Comedi Gyntaf 1994!*

gyda Ffion Wyn Davies, Huw Garmon, Arwel Gruffydd, Dora Jones, Idris Morris Jones


**NEUADD LLANOVER, CAERDYDD**

**Nos Wener, Ionawr 14 a nos Sadwrn, Ionawr 15 am 7.30**

Ffôn : Caerdydd 342022

Welsh National **OPERA** Cenedlaethol Cymru

**THEATR NEWYDD**
CAERDYDD
(0222) 394844



TYMOR Y GWANWYN

**TURANDOT**
gan PUCCINI Canir yn Saesneg
12, 22 a 25 CHWEFROR, 8 EBRILL 7.15pm
WEDI GWERTHU ALLAN

**ARIODANTE**
gan HANDEL
Canir yn Eidaleg gyda is-deitlau Saesneg
24 a 26 CHWEFROR 6.30pm

TYMOR Y GWANWYN

TOCYNNAU AR WERTH O RAGFYR 13 YMLAEN

**DER ROSENKAVALIER** gan STRAUSS
**TOSCA** gan PUCCINI
**LA FINTA GIARDINIERA** gan MOZART

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r Adran Farchnata, Opera Cenedlaethol Cymru ar 0222 464666